RHONDDA CYNON TAF

**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 16 Medi 2021 am 3.00 pm

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd J Williams
Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd S Powderhill
Y Cynghorydd P Jarman
Y Cynghorydd G Hughes
Y Cynghorydd W Owen
Y Cynghorydd D Williams

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr A Rees, Uwch Beiriannydd

**61 Croeso ac Ymddiheuriadau**

Daeth ymddiheuriad am absenoldeb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Bonetto.

**62 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Grehan wedi datgan buddiant personol mewn perthynas â Chais 21/0960/10 - Tynnu'r ardal deciau uchel bresennol a gosod deciau uchel newydd y tu ôl i'r eiddo. 57 TREM OCHR Y BRYN, PONTYPRIDD, CF37 2LG
"Rydw i'n adnabod yr ymgeisydd".

**63 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**64 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy

yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**65 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 12 Awst 2021 yn rhai cywir.

**66 CAIS RHIF: 21/0256/10**

**Newid defnydd eiddo masnachol yn rhannol i eiddo preswyl er mwyn creu dau adeilad masnachol ac wyth fflat, ynghyd â gwaith cysylltiedig (Derbyniwyd Adroddiad Canlyniadau Llifogydd ar 05/07/2021, a derbyniwyd Cynlluniau Diwygiedig ar 07/07/2021). 22-22A STRYD CAERDYDD, ABERDÂR, CF44 7DP**

Cyflwynodd y Pennaeth Cynllunio y cais i'r Pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** gohirio'r cais er mwyn i'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu gynnal Ymweliad Safle i drafod effaith bosibl yr estyniad arfaethedig ar y stryd, yr effaith ar gyfleusterau parcio a man storio ar gyfer gwastraff.

**67 CAIS RHIF: 21/0521/10**

**Codi adeilad allanol a gwneud addasiadau i'r deciau presennol yn yr ardd gefn a chodi ffens i gefn ac ochr ddeheuol ffiniau'r ardd gefn (derbyniwyd cynlluniau diwygiedig ar 16/08/21). BYNGLO PHILDEN, STRYD RHYS, TREALAW, TONYPANDY, CF40 2QQ**

Cyflwynodd y Pennaeth Materion Datblygu a Buddsoddi Sylweddol y cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth hir, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar ddiwygio amod 1, fel a ganlyn:

> 1. Cyn pen 56 diwrnod o ddyddiad y caniatâd hwn, bydd y dec presennol yn cael ei newid yn unol â'r cynlluniau sy'n cael ei ganiatáu. Cyn manteisio ar y deciau newydd, rhaid gosod sgriniau preifatrwydd ar ochr ogleddol, ddeheuol a gorllewinol y strwythur. Bydd manylion y rhain yn cael eu cyflwyno a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gyntaf. Rhaid gosod y sgriniau preifatrwydd yn unol â'r manylion wedi'u cymeradwyo a rhaid iddyn nhw aros yna am byth.
>
> Rheswm: Diffinio maint y caniatâd hwn ac amddiffyn preifatrwydd ac amwynder y trigolion cyfagos, yn unol â Pholisi AW5 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.

**68 CAIS RHIF: 21/0924/10**

**Newidiadau allanol a mewnol i ddefnydd presennol A1 (Siopau) a galluogi defnydd ychwanegol - A2 (Ariannol a Phroffesiynol), A3 (Bwyd a Diod) a B1 (Busnes) a gwaith tirlunio caled tu allan i'r llawr gwaelod a'r islawr. LLAWR GWAELOD AC ISLAWR 56 - 58 STRYD Y TAF, PONTYPRIDD, CF37 4TD**

Amlinellodd y Pennaeth Cynllunio gynnwys llythyr 'hwyr' gan Gyfoeth Naturiol Cymru sy'n gwrthwynebu'r cais.

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**69 CAIS RHIF: 21/0960/10**

**Tynnu'r ardal deciau uchel bresennol a gosod deciau uchel newydd y tu ôl i'r eiddo. 57 TREM OCHR Y BRYN, PONTYPRIDD, CF37 2LG**

**(Nodwch:** Cyhoeddodd Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol P Jarman fuddiant personol mewn perthynas â chais 21/0960/10 “Rydw i'n adnabod yr ymgeisydd.”)

**(Nodwch:** Cyhoeddodd Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Williams fuddiant personol mewn perthynas â chais 21/0960/10 “Rydw i'n adnabod yr ymgeisydd.”)

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**70 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 23/08/2021 – 03/09/2021.

**Daeth y cyfarfod i ben am 3.45 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**